# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** | **STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)** |
| **DYDD MERCHER, 8 MAWRTH 2023 AM 2.00 O'R GLOCH YP** | **WEDNESDAY, 8 MARCH 2023 AT 2.00 PM** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Non Dafydd, Douglas M Fowlie, Gwilym O Jones, Dylan Rees, Arfon Wyn

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Parch/Rev Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Colette Owens (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Sue Altree (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Parch/Rev Deborah Stammers (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Edward Morus Jones (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/ Union of Welsh Independents), Elaine Green (Yr Eglwys Bresbyteraidd/ Presbyterian Church of Wales)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern), Owain Roberts (Ysgol Cybi), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Rheinallt Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod blaenorol CYSAG a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG YNYS MÔN 2021/22** (Tudalennau 7 - 30)

I ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft Cysag Ynys Môn am y cyfnod 2021/22.

**4 PROSIECT PERERINDOD YR EGLWYS YNG NGHYNMRU**

Derbyn diweddariad gan yr Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ar Brosiect Pererindod yr Eglwys yng Nghymru.

**5 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 31 - 48)

Cyflwyno, er gwybodaeth:-

- Cofnodion drafft cyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022.
- Llythyr gan Gadeirydd CCYSAGauC ar ran y Pwyllgor Gwaith.
- Ystyried enwebiadau i'r Pwyllgor Gwaith *(gohebiaeth ynghlwn).*

**6 UNRHYW FATERION ERAILL**

Unrhyw faterion eraill – gyda chytundeb y Cadeirydd.

**7 CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf CYSAG ar ddydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023 am 2.00 o'r gloch yp.

**8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn

Atodlen 12A (categori 16) y Ddeddf."

9 **ADOLYGU CYFANSODDIAD CYSAG** (Tudalennau 49 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan yr Ymgynghorydd CGM.

This page is intentionally left blank

# Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)<br><br>**Yr Awdurdod Addysg**<br><br>Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Dylan Rees, Arfon Wyn<br><br>**Yr Enwadau Crefyddol**<br><br>Mr Edward Morus Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)<br>Mrs Colette Owens (Yr Eglwys Gatholig)<br>Mr Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru)<br><br>**Cynrychiolwyr Athrawon**<br><br>Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)<br><br>**Aelod Cyfetholedig**<br><br>Mr Rheinallt Thomas |
| **WRTH LAW:** | Mr Marc Berw Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)<br>Mrs Gwyneth M Hughes (Uwch Reolwr Lles, Addysg) (Ymgynghorydd CGM y CYSAG)<br>Mr Owen Davies (Rheolwr Addysg Gynradd)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgorau) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Phil Lord (GwE)<br>Mrs Elin Owen (Yr Eglwys yng Nghymru – Esgobaeth Bangor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Alun Mummery<br>Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)<br>Y Parch. Deborah Stammers (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br>Mrs Elaine Green (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim wedi'u derbyn.

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

- Nodwyd bod y fersiwn derfynol o Faes Llafur Cytunedig Ynys Môn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi cael ei anfon at Lywodraeth Cymru i gadarnhau fod y Cyngor Sir wedi'i fabwysiadu.
- Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM ei bod wedi trafod cael cynrychiolaeth o grwpiau nad ydynt yn rhaid crefyddol ar y CYSAG gyda'r Cyfreithiwr (yn yr Adran Llywodraethu Corfforaethol). Nodwyd y bydd yn rhaid trafod y mater ymhellach, ac bydd yr Ymgynghorydd CGM yn adrodd yn ôl i'r CYSAG yn ei gyfarfod nesaf.

## 3. YSGOLION YNYS MÔN A GWE

Adroddodd Mr Phil Lord, Cynghorydd Herio GwE, ar y gefnogaeth y mae GwE yn ei ddarparu i ysgolion yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau. Dywedodd bod ysgolion angen cymorth ac arweiniad ar fyrder i greu a datblygu eu cwricwlwm newydd. Nodwyd bod GwE wedi bod yn gweithio ar gynllunio'r cwricwlwm dros y blynyddoedd diwethaf, a'i fod wedi datblygu dealltwriaeth o'r cwricwlwm cyfan.

Cafwyd cyflwyniad ar yr adnoddau a phecynnau cymorth dwyieithog sydd ar gael ar wefan GwE, ac fe amlygwyd y meysydd allweddol canlynol o ran y Cwricwlwm i Gymru:-

- Rhwydweithiau – ar gael ar gyfer pob un o'r 6 MDPh, cyfarfodydd rhanbarthol a newyddlen;
- Dysgu Proffesiynol – adnoddau ar gael ar bob math o bynciau;
- Adnoddau Dysgu Byr – i helpu ysgolion gynllunio a datblygu eu cwricwlwm eu hunain. Mae'r adnoddau arwain newid yn cynnwys rhestrau chwarae a llawlyfrau i ysgolion.

Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM ei bod yn gweithio ar y cyd â GwE i sicrhau y bydd adnoddau ysgolion Ynys Môn, adroddiad blynyddol y CYSAG, a'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer ysgolion Ynys Môn yn cael eu cyhoeddi ar wefan GwE.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru a CCYSAGAUC wedi bod yn cydweithio i ddatblygu modiwlau dysgu proffesiynol, i helpu ysgolion ddeall beth sy'n newydd o fewn y cwricwlwm newydd.

Mynegwyd pryder unwaith eto nad ydi CYSAG Ynys Môn yn derbyn cymorth a chyfarwyddyd angenrheidiol gan arbenigwr CGM er mwyn ei alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol.

Rhannwyd gwybodaeth am wefan GwE a'r modd y mae GwE yn mynd ati i gefnogi ysgolion, ac roedd y CYSAG yn llawn edmygedd. Diolchwyd i Mr Lord am ei gyflwyniad addysgiadol.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 4. DIWEDDARIAD GAN YR YMGYNGHORYDD CGM

Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM bod y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer ysgolion Ynys Môn bellach ar gael drwy ficrowefan y Cyngor.

Cafwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Addysg Gynradd ar 'Hwb Cymorth Arweinwyr Ysgolion Ynys Môn', sy'n ficrowefan hawdd i'w gweithredu, ac sy'n darparu cymorth i Benaethiaid ac Arweinwyr ar Ynys Môn. Dywedodd bod gwybodaeth yn ymwneud â hyfforddiant, materion corfforaethol, My View, Adnoddau Dynol ac ati ar gael drwy wahanol byrth.

Nodwyd bod y gwaith ar y ficrowefan yn mynd rhagddo mewn cydweithrediad â Phenaethiaid a rhanddeiliaid eraill, a bod gwybodaeth newydd yn cael ei uwch lwytho i'r hwb yn rheolaidd ynghyd â bwletin wythnosol. Bydd adroddiad blynyddol y CYSAG hefyd yn cael ei uwch lwytho i'r hwb yn y dyfodol.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan y CYSAG, a oedd o'r farn bod y ficrowefan yn ffordd ragorol o ddatblygu a symud ymlaen. Cafodd dolen ei rhannu yn ystod y cyfarfod er mwyn i aelodau'r CYSAG gael mynediad i'r Hwb.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 5. PROSIECT PERERIN YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cafwyd cyflwyniad ar brosiect 'Pererin' yr Eglwys yng Nghymru gan Mrs Elin Owen o Esgobaeth Bangor. Mae'r prosiect yn rhan o brosiect 5 mlynedd ehangach, sef y prosiect 'Llan'. Mae'n cael ei ariannu drwy Gronfa Efengylu'r Eglwys yng Nghymru. Dywedodd mai nod y prosiect ydi rhoi cyfle i bobl sydd ddim fel arfer yn ymwneud â'r Eglwys i gymryd rhan. Mae'r prosiect wedi cael ei rhannu i dair ffrwd gwaith - Menter, Cloddio a Phererin.

Mewn perthynas â'r prosiect Pererin, mae'r gwaith yn cynnwys datblygu a sefydlu tri llwybr pererindod -

1. Llwybr y Gogledd - sydd eisoes wedi ei sefydlu o Glynnogfawr i Ynys Enlli.
2. Llwybr Cadfan - sy'n mynd o Dywyn, Meirionydd i Ynys Enlli.
3. Llwybr Ynys Môn – sy'n cysylltu Penmon a Chaergybi.

Nodwyd mai pwrpas y prosiectau ydi annog pobl i holi eu hunain ynglŷn â phererindodau. Mae'r Eglwys yn datblygu adnoddau i alluogi pobl i fynd ar bererindod, ac mae'n cynnal y rhaglen lenyddol 'Llwybr Cadfan' ar hyn o bryd.

Cyfeiriwyd at y cwmni 'Mewn Cymeriad', sy'n dod â chymeriadau hanesyddol yn fyw drwy ddrama mewn ysgolion. Mae'r Esgobaeth wedi comisiynu'r cwmni i greu drama yn seiliedig ar Sant Cadfan, a'i bererindod o Dywyn i Ynys Enlli.

Mae'r ddrama wedi cael ei pherfformio i blant yng Ngŵyl Hanes Cymru, ac mewn ysgolion ac eglwysi lleol yng Ngwynedd a Môn, yn cynnwys Llangefni.

Adroddodd Mrs Owen y bydd thema'r bererindod nawr yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd fel rhan o'r maes llafur TGAU a Lefel A. Dywedodd bod yr eglwys yn gweithio i hyrwyddo cydweithio gydag ysgolion yn gyffredinol, ac mae wedi cynnal gweithdai ysgrifennu creadigol mewn ysgolion. Mae hefyd yn gweithio ar gynhyrchu llyfrau stori ar y Seintiau i blant a dramâu ar Seintiau Ynys Môn ac ati, yn ogystal â hyrwyddo'r Gymraeg.

Nodwyd bod athrawon Ynys Môn wedi mynegi yr hoffent weld llwybr tebyg ar Ynys Môn, yn seiliedig ar Seintiau Ynys Môn. Nodwyd bod Ysgol Santes Dwynwen wedi mynd ar bererindod i Landdwyn.

Adroddodd Mrs Owen y bydd yr Esgobaeth yn penodi Swyddog Pererindod ar gyfer Ysgolion, i ofalu am anghenion addysgol y prosiectau, a fydd yn rhan o'r cwricwlwm newydd. Canolbwyntir ar y chwe eglwys pererindod a theithiau i ysgolion, gweithdai creadigol a dramâu ac ati.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Owen ar ran y CYSAG am ei chyflwyniad rhagorol a'i brwdfrydedd i'r prosiect, a gwaith yr Esgobaeth i ddod â'r seintiau'n fyw drwy ddrama.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**6. AROLYGON YSGOLION – GWANWYN 2022**

Cyflwynwyd adroddiadau arolygu Estyn mewn perthynas ag Ysgol Cemaes ac Ysgol Corn Hir, Llangefni i'w hystyried gan y CYSAG. Nodwyd nad ydi Estyn bellach yn graddio ysgolion ar berfformiad, a bod adroddiadau'n rhestru argymhellion pob Arolygydd ar gyfer datblygu pellach.

Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM bod argymhellion unigol wedi'u gwneud ar gyfer Ysgol Cemaes ac Ysgol Corn Hir yn dilyn yr adolygiadau Estyn, fel y nodir yn yr adroddiad. Bydd pob Pennaeth yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr argymhelliad(ion) ar gyfer eu hysgol.

Mynegwyd pryder nad oedd Estyn wedi tynnu sylw at Gristnogaeth, fel y brif grefydd, yn eu hadroddiadau, er bod CGM yn fandadol ym mhob ysgol. Nodwyd bod yr unig gyfeiriad at arfer da yn ymwneud â chyd-addoli yn yr ysgolion.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Bod yr Ymgynghorydd CGM yn ysgrifennu at Brif Arolygydd Estyn yn mynegi pryder y CYSAG ynglŷn â'r diffyg cyfeiriad penodol at Gristnogaeth fel y brif grefydd yn yr adroddiadau Estyn.**
- **Dywedodd Mr Rheinallt Thomas y byddai'n codi'r diffyg ffocws ar Gristnogaeth mewn adroddiadau Estyn yng nghyfarfod nesaf CCYSAGAUC.**

- **Bod yr Ymgynghorydd CGM yn ysgrifennu at Benaethiaid ysgolion Ynys Môn yn amlygu pryder y CYSAG ynglŷn â’r diffyg cyfeiriad penodol at Gristnogaeth fel y brif grefydd yn yr adroddiadau a gyflwynwyd.**
- **Bod yr Ymgynghorydd CGM yn gwahodd Penaethiaid o ysgolion Ynys Môn i gyfarfodydd y CYSAG i gyflwyno enghreifftiau o waith eu disgyblion.**

**7. CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU (CCYSAGAUC)**

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod o CCYSAGAUC a gynhaliwyd ar 29 eu cyflwyno a’u derbyn.

**8. UNRHYW FATER ARALL**

Holodd yr Ymgynghorydd CGM a fyddai’r CYSAG yn hoffi ailddechrau’r ymweliadau i ysgolion i arsylwi Addoli ar y Cyd?

**PENDERFYNWYD parhau â’r trefniadau presennol am y tro.**

Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod nesaf y CYSAG ar 6 Chwefror 2023 am 2.00pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2021 – Awst 2022

Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc
Rhys Howard Hughes   Medi 2021 / Awst 2022

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Y Cynghorydd Dylan Rees

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Leol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad y CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2021-22
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau Addysg Grefyddol
3.6 Cynllun Gweithredu CYSAG Môn 2019-20

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**
Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.
Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Mae'n fraint i mi unwaith eto, fel Cadeirydd CYSAG Ynys Môn, gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/21.
Mae effaith Covid wedi parhau i darfu ar ein system addysg ac o ganlyniad unwaith eto nid oes data monitro ar gael ar gyfer perfformiad ysgolion. Serch hynny, mae'r CYSAG wedi parhau i fonitro safonau drwy adolygu adroddiadau ESTYN, gan dderbyn adroddiadau hunan-asesu gan ysgolion a rhannu arferion da. Cafodd dwy ysgol ar Ynys Môn eu harolygu gan ESTYN yn y cyfnod yma, sef Ysgol Corn Hir, Llangefni ac Ysgol Gynradd Cemaes. Braf yw nodi fod y ddwy ysgol wedi derbyn adroddiadau llwyddiannus.

Gwaith allweddol ar gyfer CYSAG Ynys Mon eleni oedd cynnal Cynhadledd Maes Llafur y cytunwyd arni i adolygu'r maes llafur newydd ar gyfer "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg" fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Cynhaliwyd y gynhadledd rithiol hon ar 15 Chwefror ac fe'i mynychwyd ar y cyd gan aelodau Ynys Mon a CYSAG Gwynedd gyda chyngor ac arweiniad ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Mr Phil Lord (GwE). Wedi'r gynhadledd, cytunwyd yn unfrydol y byddai'r awdurdod lleol yn mabwysiadu'r Maes Llafur y cytunwyd arni ar Ynys Môn.

Unwaith eto, mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys nifer o argymhellion (un ar ddeg i gyd) a fydd yn cael ei gynnwys mewn Cynllun Gweithredu diwygiedig a fydd yn cael ei adolygu gan y SACRE yn rheolaidd.

Siom yw nodi bod niferoedd y disgyblion sy'n dewis astudio addysg grefyddol mewn ysgolion ar draws Ynys Môn yn parhau i ddisgyn, yn rhai yn arbennig felly. Wrth gwrs, buan iawn y byddwn yn symud i fabwysiadu'r pwnc newydd sef "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg" fel rhan o'r cwricwlwm newydd ac mewn amser cawn weld os fydd mwy o ddisgyblion yn dewis astudio'r pwnc newydd hwn.

Hoffwn ddiolch o galon eto i fy nghyd-aelodau o'r Pwyllgor am eu cefnogaeth drwy gydol yr hyn a fu'n flwyddyn anodd a heriol arall. Yn ogystal, rhaid i mi roi sylw arbennig i Mrs Gwyneth Hughes (Ymgynghorydd CYSAG ) am ei chymorth a'i harweiniad amhrisiadwy ynghyd â chefnogaeth hanfodol Mrs Shirley Cooke, ein Swyddog Pwyllgor.

Yn olaf, er nad ydw i'n ffan o'r grŵp pop "The Clash" rwy'n dod o hyd i eiriau eu sengl boblogaidd "Shall I stay or shall I go?" yn arbennig o berthnasol ar hyn o bryd. Rwyf wedi penderfynu ar ôl treulio dau dymor llawn fel Cadeirydd Ynys Môn CYSAG ei bod yn wir yn amser i mi fynd ac i ganiatáu i waed newydd gymryd drosodd. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r cyn-swyddogion a'r swyddogion presennol ac aelodau CYSAG am eu holl gefnogaeth. Mae wedi bod yn fraint cael ymgymryd â'r rôl hon dros y naw mlynedd diwethaf ac rwy'n dymuno i'r Cadeirydd newydd, pob llwyddiant, pwy bynnag y bo. Rwy'n eich gadael gyda'r geiriau canlynol o ddoethineb – "“The most important thing for a politician is service. The greatest temptation is vanity.” (Tim Farron MP).

Cynghorydd Dylan Rees
Cadeirydd CYSAG Ynys Môn

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r Addysg Grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a).

Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn eu Cynhadledd Maes Llafur Cytûn ar ddechrau'r flwyddyn 2022 er mwyn adolygu'r maes llafur ac i argymell maes llafur priodol i'r Awdurdod Lleol ei fabwysiadu.

Cafodd y Maes Llafur Cytûn ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ei fabwysiadu i adlewyrchu canllawiau a ysgrifennwyd gan ymarferwyr ac arbenigwyr Addysg Grefyddol. Diben y maes llafur yw rhoi cymorth ychwanegol o ran sut y gellir addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn maes y Dyniaethau. Mae'r canllawiau'n pwysleisio bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan annatod o'r maes hwn ac yn amlinellu cyfraniad unigryw a phenodol y pwnc i'r Cwricwlwm i Gymru.

Maes Llafur Cytunedig Ynys Mon (

Ynys Môn Agreed Syllabus t.docx

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd drwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- gwirio adroddiadau arolygiadau ESTYN i adnabod arferion da a chefnogi ymhellach unrhyw gyfeiriad at 'Addysg Grefyddol' neu 'addoli ar y cyd' sydd angen ei gryfhau;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol;
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd;
- annog cydweithio rhwng ysgolion i adnabod a chefnogi arferion da.

**Roedd y flwyddyn academaidd 2021-22 yn parhau i fod yn un heriol yn dilyn y cyfnodau clo ac effaith Covid-19. Ni lwyddwyd i gynnal ymweliadau mewn ysgolion. Serch hynny:**

- Parhaodd cyfarfodydd CYSAG drwy ymgysylltu'n rhithiol a bu hyn yn werthfawr er mwyn diweddaru'r panel yn barhaus ar oblygiadau wrth fynd ati i baratoi ar gyfer y newidiadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a goblygiadau mabwysiadu'r Maes Llafur Cytûn ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Dyniaethau.
- Gwahoddwyd Mr Phil Lord, ymgynghorydd o GwE i roi arweiniad i'r Pwyllgor ar y newidiadau arfaethedig o fewn y maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. O ganlyniad, roedd CYSAG Môn yn hyderus wrth baratoi eu Maes Llafur Cytûn ar gyfer Medi 2022.
- Rhannwyd linc at adnoddau HWB fel bod y Pwyllgor yn ymgyfarwyddo gydag adnoddau sydd ar gael i athrawon i'w cynorthwyo gyda'u gwaith: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#crefydd,-gwerthoedd-a-moeseg%20gan
- Rhannwyd adnoddau Astudiaethau Crefyddol sydd ar gael ar wefan CBAC isod: https://resources.wjec.co.uk/Pages/SearchResources.aspx
- Yn ystod y flwyddyn, casglodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adnoddau eraill er mwyn cefnogi aelodau'r Pwyllgor CYSAG ac ysgolion.

Pecyn%20cefnogaeth
%202022.docx

## 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol wedi cymeradwyo'r templedi a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu ESTYN. Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog o fewn Gwasanaeth Dysgu Cyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau.

Mae cyflwyno templed hunan arfarnu i ysgolion wedi hyrwyddo gwaith y Pwyllgor i fod yn fwy effeithiol i adnabod ansawdd gwaith disgyblion yn ein hysgolion cynradd o fewn maes Addysg Grefyddol a llunio barn am berfformiad.
Gyda dyfodiad Cwricwlwm i Gymru, mae angen gwerthuso'r templed ymhellach i wirio bod yr HA yn cyd-fynd â'r disgwyliadau a'r gofynion diweddaraf.

- Mae'r flwyddyn 2021-2022 yn gyfnod trosiannol wrth i'r Pwyllgor baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.
- Mabwysiadwyd Maes Llafur Cytûn newydd.
- Cynhaliwyd etholiad y Cyngor.
- Penderfynwyd eleni i rannu arian grant sydd fel arfer yn hwyluso gwaith y Panel Gweithredol at bob ysgol yn unigol gyda'r bwriad bod cyd-gysylltydd Dyniaethau'n cael amser di-gyswllt i weithio o fewn eu dalgylch i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.
- Cafwyd cadarnhad bod ysgolion yn derbyn cefnogaeth dda drwy'r Consortia Addysg GwE i hyrwyddo camau cynllunio ar gyfer cwricwlwm 2022.
- Cafwyd cadarnhad gan athrawon sy'n aelodau o'r Pwyllgor CYSAG bod ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweithio ar y cyd yn llwyddiannus i sicrhau bod cysondeb a dilyniant da ar waith wrth ddylunio cynlluniau trosglwyddo ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

- Mae'r Awdurdod yn gwneud defnydd o lwyfan electronig mewnol er mwyn i ysgolion rannu adnoddau ac arfer dda.

**Ni adolygwyd hunan arfarniad yr un ysgol eleni o fewn y maes Addysg Grefyddol oherwydd cydnabyddiaeth bod cymaint o newidiadau ar y gweill a bod ysgolion angen amser i baratoi am y newidiadau hynny. Dechreuodd Estyn ail-afael mewn arolygu ysgolion yn nhymor yr haf 2022.**

**Arolygwyd dwy ysgol gynradd.**

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- **Adolygu cyfansoddiad y Pwyllgor CYSAG er mwyn ymateb yn briodol i'r Maes Llafur Cytûn.**
- **Ail-ffocysu gwaith y Pwyllgor Gweithredol er mwyn hyrwyddo rhannu arferion da, rhannu adnoddau a chydweithio'n wydn o fewn dalgylch.**
- **Bod CYSAG yn ystyried sut y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei fonitro o fewn y Dyniaethau ochr yn ochr â gwaith monitro GwE.**

**Nid yw'r un Awdurdod yn cyhoeddi canlyniadau perfformiad arholiadau allanol unigol ysgolion ar hyn o bryd.**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gwella ysgolion ar sail anstatudol. Bydd y canllawiau'n cael eu diweddaru, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn 2022 i 2023 ac yn 2023 i 2024, a'u cyhoeddi ar ffurf canllawiau statudol i ddod i rym ym mis Medi 2024.**

**Nid yw'n addas felly i adrodd ar berfformiad canlyniadau arholiadau ysgolion fel yn y gorffennol. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o dueddiadau niferoedd disgyblion sy'n dilyn Addysg Grefyddol mewn TGAU.**

| Ysgol | Niferoedd Disgyblion TGAU Haf 2019 | Niferoedd Disgyblion TGAU Haf 2020 | Niferoedd Disgyblion TGAU Haf 2021 | Niferoedd Disgyblion TGAU Haf 2022 |
|---|---|---|---|---|
| YSTJ | 25 | 14 | 17 | 21 |
| YUC | 0 | 1 | 16 | 0 |
| YGLl | 14 | 20 | 4 | 9 |
| YDH | 33 | 31 | 51 | 24 |
| YUB | 22 | 17 | 15 | 10 |
| Cyfanswm | 94 | 83 | 103 | 64 |

Yn dilyn cynnydd sylweddol yn niferoedd y disgyblion Ysgol Uwchradd Caergybi a astudiodd TGAU Addysg Grefyddol yn 2021, eleni yn 2022, nid oedd yr un disgybl yn astudio TGAU Addysg Grefyddol yno. Mae niferoedd Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch wedi parhau, drwyddi draw, yn eithaf cyson dros amser. Ar y cyfan, fodd bynnag, gostwng mae niferoedd y plant sy'n astudio Addysg Grefyddol ar draws ysgolion Môn gyda'r gostyngiad mwyaf i'w weld yn Ysgol David Hughes gyda 27 o ddisgyblion eleni yn llai na blwyddyn yn ôl.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o dueddiadau niferoedd disgyblion sy'n dilyn Addysg Grefyddol mewn Lefel A.

| Ysgol | Niferoedd Disgyblion Lefel A 2019 | Niferoedd Disgyblion Lefel A 2020 | Niferoedd Disgyblion Lefel A 2021 | Niferoedd Disgyblion Lefel A 2022 |
|---|---|---|---|---|
| YSTJ | 13 | 8 | 8 | 7 |
| YUC | 0 | 0 | 1 | 0 |
| YGLl | 6 | 0 | 3 | 2 |
| YDH | 8 | 10 | 2 | 12 |
| YUB | 2 | 7 | 6 | 3 |
| Cyfanswm | 29 | 25 | 20 | 24 |

Mae'r data'n dangos bod niferoedd y disgyblion sy'n dilyn Lefel A Addysg Grefyddol wedi gostwng mewn 4 ysgol yn 2022. Unwaith eto, gwelir bod niferoedd disgyblion sy'n astudio Lefel A Addysg Grefyddol yn Ysgol Syr Thomas Jones yn parhau yn gymharol gyson ac mae niferoedd Ysgol David Hughes wedi cynyddu'n sylweddol. Mae 4 mwy o ddisgyblion eleni wedi astudio Addysg Grefyddol yn Lefel A yn 2022 o'u cymharu â 2021.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Cefnogi ysgolion Môn i ddylunio Cwricwlwm cyffrous a pherthnasol o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn ei dro yn annog mwy o ddisgyblion i astudio'r maes ymhellach fel pwnc academaidd.
- Drwy gydweithio â GwE, paratoi cydlynwyr Dyniaethau fydd yn meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer gofynion y Cwricwlwm i Gymru newydd o fewn y maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
- Sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at ganllawiau ac arferion da a fyddai'n gwella deilliannau addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

### 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Cafodd dwy ysgol eu harolygu yn llwyddiannus gan Estyn dros dymor yr haf 2022, sef Ysgol Gynradd Cemaes ac Ysgol Corn Hir.

corn hir.pdf cemaes.pdf

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

- Adroddodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol bod ysgolion yn parhau i wynebu amseroedd heriol oherwydd y pandemig. Mae penaethiaid dan bwysau sylweddol i sicrhau trefniadau i atal lledaeniad Covid-19, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

- Trafodwyd bod data'n dangos bod nifer o deuluoedd yn dewis addysg gartref fel opsiwn yn y tymor byr ac fel ymateb i bryder o ddal Covid-19. Nodwyd pryder gan y pwyllgor am y tueddiadau hyn a'r effaith negyddol y gall hyn ei chael ar y ganran o blant Môn fydd mewn risg o golli gwersi Addysg Grefyddol.
- Nodwyd bod canran o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cymryd rhan mewn cynllun hyfforddiant Athroniaeth i Blant. Gwelwyd bod hyfforddiant o'r fath yn cefnogi ysgolion i ddarparu gwersi sy'n ategu gofynion o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
- Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Ysgolion Heddwch yn rhithiol yn llwyddiannus. Y prif bwnc a drafodwyd oedd newid hinsawdd a'i effaith ar boblogaethau'r byd. Roedd cyfraniad Ynys Môn yn cynnwys datblygu'r themâu ar leiafrifoedd ethnig o fewn y cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
- Erbyn tymor yr haf, roedd effaith Covid-19 yn lleihau a bu i Estyn ailgychwyn arolygu ysgolion.
- Ym mis Mehefin 2022, cafodd Gwasanaeth Dysgu Awdurdod Ynys Môn hefyd ei arolygu gyda chanfyddiadau da iawn.
- Yn dilyn dyrchafiad y Cyfarwyddwr Addysg presennol i Ddirprwy Prif Weithredwr, penodwyd Mr Marc Berw Hughes yn gyfarwyddwr newydd i'r Gwasanaeth Dysgu.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

**Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dod â chwricwlwm newydd i rym, sef Cwricwlwm i Gymru. Bu'r Pwyllgor yn weithredol iawn yn ystod y flwyddyn 2021- 2022 i hwyluso'r newidiadau. O ganlyniad, gall y Pwyllgor barhau'n gyfoes a gweithredu'n briodol.**

Yn ystod y flwyddyn:

- Cynhaliwyd Cynhadledd Maes Llafur Cytûn (15/02/2022).

cynhadledd%20pp%
20%5bAutosaved%5c

- Gwahoddwyd Mr Phil Lord (GwE) i'r gynhadledd er mwyn manteisio ar ei brofiad arbenigol.
- Mabwysiadwyd y Maes Llafur a nododd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol CYSAG Môn bod dyletswydd gyfreithiol ar bob cynhadledd i adolygu'r Maes Llafur Cytûn bob pum mlynedd.
- Nodwyd bod y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer disgyblion hyd at Flwyddyn 7 o fis Medi 2022, ac yna'n cael ei ymestyn yn flynyddol hyd at Flwyddyn 11 yn 2026.
- Derbyniwyd y bydd enw CYSAG yn newid, yn ôl pob tebyg i'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog yn dilyn adolygiad o'r cyfansoddiad.
- Bydd adolygiad o'r cyfansoddiad yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn nesaf, sef 2023.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod pob athro'n ymwybodol o'r Maes Llafur Cytûn newydd Medi 2022.
- Cynnal adolygiad o gyfansoddiad y Pwyllgor CYSAG er mwyn ateb y gofynion sydd yn y Maes Llafur Cytûn newydd.
- Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac yn gwneud defnydd llawn o adnoddau HWB.
- Parhau i hwyluso athrawon Addysg Grefyddol Ynys Môn ac aelodau CYSAG Môn i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu.

## 2.6 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013)
  - Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017)
  - Diweddariad ar gyfer Arolygwyr (ESTYN, Ebrill 2018)'. Tynnwyd sylw at y dyfyniad a ganlyn o'r canllawiau:-

  *'Efallai nad effeithir ar y farn ar gyfer MA4 os na fodlonir y ddyletswydd statudol. Mae hyn yn rhywbeth i'r tîm ei ystyried. Bydd angen i'r tîm bwyso a mesur nifer o ffactorau ym mhob achos penodol, er enghraifft nifer y disgyblion y mae'n effeithio arnynt, a bydd rhaid i'r tîm benderfynu p'un a yw hyn yn arwyddocaol ai peidio, a ph'un a ddylai effeithio ar y farn gyffredinol ar gyfer MA4. Ni waeth p'un a fydd arolygwyr yn penderfynu adrodd ar addoli ar y cyd ai peidio, rhaid iddynt bob amser adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.'*

- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Cyn Covid-19, bu'r CYSAG wneud defnydd o pro-fforma i gofnodi eu harsylwadau yn ystod eu hymweliadau.

- **Yn 2020- 2021, cafwyd cadarnhad gan yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol bod ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol parthed addoli ar y cyd drwy hefyd gydymffurfio â rheoliadau Covid-19:**

- Wrth baratoi i gynllunio gwasanaethau addoli ar y cyd yn yr hinsawdd bresennol dan amodau Covid-19, mae'n bwysig bod penaethiaid yn ystyried yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru **ffrydio-byw arferion ac egwyddorion diogelu i ymarferwyr addysg** <https://hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein/ffrydio-byw-arferion-ac-egwyddorion-diogelu-i-ymarferwyr-addysg/>. sydd wedi ei gyhoeddi fel rhan o'r canllaw 'Aros yn Ddiogel. Dysgu Gydol Oes' i gefnogi ysgolion sydd am gyflwyno gwersi ffrydio-byw i'w dysgwyr.

Mae CYSAG yn cynnig nifer o ffyrdd y gall ysgolion gynnig gwasanaethau addoli ar y cyd a fyddai'n gyraeddadwy ac yn ymarferol i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr. Gallai ysgolion gynnig:

- Ffrydio gwasanaethau addoli ar y cyd gan y pennaeth sy'n dilyn themâu penodol lle y rhennir llwyddiannau a chynhwysir amser i fyfyrio neu addoli. Gallai staff penodol helpu'r penaethiaid i baratoi gwasanaethau ar sail rota;
- Addoliadau ar y cyd byw drwy fideo-gynadledda, e.e. drwy Microsoft Teams yn Hwb;
- Munud i feddwl yn cael ei gyflwyno drwy wefan yr ysgol, y cyfryngau cymdeithasol neu e-bost. Gellir defnyddio hwn fel ffordd ystyrlon o gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad emosiynol, cymdeithasol, ac ysbrydol a chyfle i addoli fel y bo'n briodol;

- Anfon enghreifftiau o fyfyrdodau i ddysgwyr feddwl amdanynt gartref. Gallent fod yn syml, yn ddarn o gerddoriaeth, darlun/fideo byr neu gwestiwn arwyddocaol i'w ystyried. Gall rhieni/gofalwyr wedyn ddewis cynnig cyfle i addoli fel sy'n briodol i gefndir y teulu;
- Cyfle i'r dysgwyr awgrymu themâu a phynciau ar gyfer addoli ar y cyd neu fyfyrio. Gallent fod eisiau arwain ar destun y gwasanaeth e.e. recordio fideo byr i eraill, dewis llun, a rhannu llwyddiannau. Gall dysgwyr ddal fod wrth wraidd gwasanaethau a arweinir gan y plentyn;
- Gwasanaethau creadigol a phwrpasol y gellid eu datblygu drwy archwilio rhan o'r cysyniadau a'r themâu allweddol a geir yn natganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig yn y Cwricwlwm i Gymru 2022. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu rhai o nodweddion y pedwar diben ac, ar yr un pryd, ymestyn oes adnoddau a grëwyd;
- Cyfle i'r dysgwyr gymryd rhan weithredol mewn addoli ar y cyd a chyfle i ymateb fel rhan o'r profiad torfol. Er enghraifft, anfon gwaith celf, barddoniaeth, neu ddim ond rhannu eu meddyliau ar y myfyrdod drwy sgwrs gyda'u hathro. Gallai rhwydweithiau a chyfleusterau siarad HwB fod yn ffordd ddefnyddiol o rannu'r ymatebion hyn. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig yn yr amser pryderus hwn;
- Rhannu profiadau athrawon, staff cymorth a dysgwyr mewn ysgolion drwy fideo a recordiwyd ymlaen llaw, ffotograff, dyddiadur, ayyb., (os yw'n addas, a thrwy gael y caniatâd perthnasol a dilyn gweithdrefnau diogelu);
- I'r rheiny sydd heb fynediad at adnoddau digidol, darparu pecyn o awgrymiadau am fyfyrdod drwy'r post, fel eu bod yn dal yn cael cyfle i fyfyrio a datblygu'n emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol ynghyd â chyfle i addoli fel/os yn briodol i gefndir y teulu. Gellid seilio'r rhain ar adnoddau a ddatblygwyd yn barod.

**Erbyn tymor yr haf, roedd ysgolion wedi ailafael yn llawn â sesiynau addoli ar y cyd drwy ymgynnull ysgol gyfan. Serch hynny, am eleni, penderfynodd y panel i beidio ymweld â sesiynau addoli ar y cyd.**

**Ni fydd gofynion Cwricwlwm i Gymru'n atal rhieni rhag cael yr hawl i wrthod eu plant fynychu sesiynau addoli ar y cyd. Fodd bynnag, mae gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol i bawb ac nid oes gan riant yr hawl i dynnu eu plant o'r gwersi.**

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Ailafael ag ymweliadau drwy wahoddiadau er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**ADRAN 3: ATODIADAU**

## 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Môn yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn Medi 2021

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Parch/Rev Sue Altree |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Parch/Rev Debra Stammers |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Mrs Elaine Green |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Sedd Wag |
| Undeb yr Annibynwyr | Parch. Jim Clark |
| Yr Eglwys Babyddol | Mr Christopher Thomas |

**Cynrychiolwyr Athrawon (cyfetholwyd)**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Llangaffo | Manon Morris Williams |
| Ysgol Cybi | *Owain Roberts* |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | Heledd Hearn |
| Ysgol Syr Thomas Jones | Mefys Jones Edwards |

**Cynghorwyr**

Cynghorydd Gwilym O Jones
Cynghorydd Alun Mummery
Cynghorydd Aled Morris Jones
Cynghorydd Dylan Rees **(Cadeirydd**)
Cynghorydd Alun Roberts
Cynghorydd Aled Morris Jones
Cynghorydd Bryan Owen

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Rheinallt Thomas | Cyngor yr Ysgolion Sul |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mr Rhys H Hughes | Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| Gwyneth Môn Hughes | Uwch Reolwr Llesiant ac Ymgynghorydd CYSAG<br>Clerc CYSAG Môn [dros dro] |
| Shirley Cooke | Swyddog Pwyllgor |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2021- 2022

Rhoddir crynodeb o'r trafodaethau cyfarfodydd CYSAG o fewn yr Adroddiad Blynyddol.

Yn ystod 2021 – 2022, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar dri achlysur yn rhithiol:

**23 Tachwedd 2021**
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=144&MId=3972&Ver=4&LLL=1
http://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=144&MId=3972&Ver=4&LLL=0

**15 Chwefror 2022**
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=144&MId=4003&Ver=4&LLL=1
http://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=144&MId=4003&Ver=4&LLL=0

**13 Gorffennaf 2022**
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=144&MId=4052&Ver=4&LLL=1
http://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=144&MId=4052&Ver=4&LLL=0

**Ym mis Mai 2022, cynhaliwyd etholiad y Cyngor, ac erbyn diwedd y flwyddyn enwebwyd cynghorwyr newydd i fod yn aelodau o GYSAG. Bydd aelodau newydd yn cael eu cofnodi o fewn adroddiad blynyddol 2022-23.**

**Yn nghyfarfod CYSAG Gorffennaf 2022, dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees ei fod yn sefyll i lawr fel Cadeirydd y CYSAG ar ôl 9 mlynedd yn y rôl. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.**

**Diolchodd aelodau'r CYSAG i'r Cynghorydd Rees am ei ymroddiad fel Cadeirydd.**
**Cynigiodd y Cynghorydd Gwilym Jones fod y Cynghorydd Non Dafydd yn cael ei hethol yn Gadeirydd y CYSAG am y 5 mlynedd nesaf. Derbyniodd y CYSAG ei gynnig yn unfrydol ac etholwyd y Cynghorydd Non Dafydd yn Gadeirydd y CYSAG.**

## 3.4 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau Addysg Grefyddol

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru'n credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

**Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)**

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu ei addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Addysg Grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010-12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed (2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk)

**ESTYN**

Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bum maes arolygu:

1. Safonau
2. Lles ac agweddau at ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth





Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyhoeddwyd adolygiad thematig o Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd ym mis Mehefin 2013 ac mae'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol, ysgolion a CYSAGau.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)

- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd Digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu Addysg Grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG?  A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel?  A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu Addysg Grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu Addysg Grefyddol? |
| **Data**<br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau:<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod?  (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill?  (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni?  (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn Addysg Grefyddol? |
| **Eraill**<br><br>RE Quality Mark GOLD<br>Newyddion **Addysg Grefyddol**<br>**Religious Education** News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu  genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd, rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol;<br>• Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales.* |

## Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

**I ba raddau y mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol)'.

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> *"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol i ddod i farn ar faes arolygu 4.2. Mae gan Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar Addysg Grefyddol yn ystod tymor yr hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod y rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant, bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

### Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau Addysg Grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn Addysg Grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn Addysg Grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau Addysg Grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn Addysg Grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi Addysg Grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r ddarpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn? % sy'n cael achrediad am Addysg Grefyddol statudol.

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer Addysg Grefyddol?
- Sut mae Addysg Grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r Addysg Grefyddol yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal â'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?
- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer Addysg Grefyddol? (adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? Amcanion clir? Dulliau addysgu? Adnoddau?)
- Pa mor dda mae'r adborth mewn Addysg Grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn Addysg Grefyddol?

- Sut mae'r cynllunio ar gyfer Addysg Grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? A ydych wedi dechrau ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?
- I ba raddau mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn Addysg Grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag Addysg Grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r Addysg Grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau Addysg Grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol bwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau Addysg Grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn Addysg Grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad Addysg Grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae Addysg Grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth grefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaliaid, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi Addysg Grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A oes gan yr arweinydd pwnc Addysg Grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn Addysg Grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu Addysg Grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi Addysg Grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynnu o wersi Addysg Grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi Addysg Grefyddol? A yw'r nifer hwn wedi cynyddu/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs â rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer Addysg Grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro Addysg Grefyddol? Sut caiff yr wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r 'enghraifft gorau o Addysg Grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Sut all CYSAGau fonitro safonau?**

Cywain gwybodaeth → Dadansoddi → Crynhoi Dod i farn → Cynllunio gweithredu → Cywain gwybodaeth

**Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?**

- trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunan arfarniad.
- trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol.
- trwy drefnu bod yr aelodau'n ymweld ag ysgolion;
- trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein.
- trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig).

**Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?**

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion.
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3, canlyniadau TGAU, Safon UG/A;
- Adroddiadau ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG;
- Dadansoddiad o holiaduron ysgol, arolygon ar-lein (disgyblion, staff, llywodraethwyr) wedi'u cyflwyno gan benaethiaid, cydlynwyr neu CYSAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru;
- Cyflwyniadau gan gydlynwyr, athrawon, penaethiaid, disgyblion;
- Llwyddiant mewn cystadlaethau, achrediadau allanol.

**Rhifau - meintiau a chyfrannau**

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |
| tua hanner | = | agos at 50% |

**Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?**

- athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- aelodau CYSAG
- swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- disgyblion
- llywodraethwyr

| | |
|---|---|
| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig**<br>arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau**<br>llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella**<br>boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, cyfyngedig | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau**<br>annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |
| Rhagorol<br>Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig | Da<br>Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |

**Geiriau/ymadroddion defnyddiol**

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...
Dengys xxx bod x% o'r rhieni/staff/llywodraethwyr yn....

**Beth ddylid ei gynnwys?**

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

**Enw'r Ysgol:**

## Addysg Grefyddol

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**

***Pa mor dda mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

Nodiadau:

**Mae safonau Addysg Grefyddol ein disgyblion yn: BARN**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol**

***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi Addysg Grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur Addysg Grefyddol, cofnodion grŵp ffocws/Cyngor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Nodiadau:

**Mae agweddau disgyblion tuag at Addysg Grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN**

**Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol**

***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn Addysg Grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau Addysg Grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau:

**Maes safonau addysgu Addysg Grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**

***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau Addysg Grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae Addysg Grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw droseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglŷn ag addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

Nodiadau:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |

**Mae cyfraniad Addysg Grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: BARN**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol**

***A oes gan yr arweinydd pwnc Addysg Grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

- Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro a hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.
- I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG

| Nodiadau: |
| --- |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol yn: BARN** |

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
| --- | --- | --- | --- |
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r pennaeth**
**Llofnod y pennaeth**
**Dyddiad:**

**3.6: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYSAG Ynys Môn wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd**

**Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol**

| | | |
|---|---|---|
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn: | ysgol arbennig | ☐ |
| | ysgol gynradd | ☐ |
| | ysgol uwchradd | ☐ |
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd: | torfol/ysgol gyfan | ☐ |
| | dosbarth | ☐ |
| | cyfnod allweddol | ☐ |
| Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: | y pennaeth | ☐ |
| | disgyblion | ☐ |
| | athro/athrawon | ☐ |
| | arweinydd crefyddol lleol | ☐ |
| | rhiant/rhieni | ☐ |
| | llywodraethwr | ☐ |
| Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para: | llai na 5 munud | ☐ |
| | rhwng 5-10 munud | ☐ |
| | rhwng 10-15 munud | ☐ |
| | dros 15 munud. | ☐ |

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: ____________________________________________

Clywais:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | | Cyflwyniad gan y disgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | | |
| Emyn /carol Cristnogol | | | | |
| Cân addas | | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:

- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu'n fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a'r gymuned leol, ac i'w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall:

# Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2019 - 2022

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn seiliedig ar y dogfennau canlynol:

- Adroddiad blynyddol CYSAG
- Cwricwlwm Newydd i Gymru
- Adroddiadau ESTYN i safoni gwaith

| Blaenoriaeth | Camau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Tystiolaeth | Deilliannau | |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn weithredol ym mhob ysgol. Codi delwedd a statws y pwnc o fewn y cwricwlwm Dyniaethau ac Iechyd a Lles yn ogystal â fframwaith Add Gref.** | • Uchafu statws Addysg Grefyddol o fewn ysgolion uwchradd a chynradd Môn.<br><br>• Creu panel gweithredol i gynnig arweiniad a chyngor o fewn y pwnc Add Gref ym mhob dalgylch. Adrodd yn ôl i Bwyllgor CYSAG unwaith bob tymor am eu gwaith o fewn dalgylch.<br><br>• Disgwyliadau ar gyfer y maes yn glir i bob ysgol | **Aelodau CYSAG/ Penaethiaid Ysgol**<br><br>**GMH i sefydlu Pwyllgor Gweithredol**<br><br>**Ysgol Aelodau CYSAG** | • Ysgolion yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer Add Gref. Pob ysgol gydag athro sy'n arwain ar Add Gref yn yr ysgolion.<br>• Pob ysgol yn ymwybodol o waith CYSAG.<br><br>• Cylch gorchwyl. Cofnodion cyfarfodydd.<br><br>• Adnoddau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn blwch ar wefan Addysg | • Pob ysgol yn cydymffurfio â'r disgwyliadau am addoli ar y cyd yn ddyddiol.<br>• Cydlynydd Add Gref ym mhob ysgol ac yn arwain a monitro ansawdd.<br>• Ysgolion yn bwydo i mewn i HA Add Gref yn rheolaidd ac yn blaenoriaethu cynnydd.<br><br>• Safon Add Gref mewn llyfrau gwaith yn cynyddu. Disgyblion yn gallu myfyrio'n dda. Sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd yn cael eu cyflwyno ym mhob sesiwn.<br><br>• Athrawon a disgyblion | **Niferoedd sy'n dilyn arholiadau allanol yn parhau i ostwng.**<br><br>**Covid-19 wedi cael effaith ar waith y Pwyllgor a'r Panel Gweithredol i safoni gwaith dros y cyfnod llawn.**<br><br>**Er gwaethaf Covid-19, ysgolion wedi llwyddo i gynnal sesiynau addoli ar y cyd mewn dulliau creadigol.** |

Tudalen 28

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Aelodau o'r CYSAG i fynychu sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion a sicrhau continwwm o ddysgu. | **CYSAG** | Môn.<br>• Adroddiadau llafar aelodau'r CYSAG.<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN. | yn perthnasu pwysigrwydd Add Gref o fewn bywyd bob dydd trwy lesiant, myfyrdodau a chymuned.<br>• Aelodau CYSAG gyda dealltwriaeth dda o ansawdd addoli ar y cyd mewn ysgolion.<br>• Perthynas dda rhwng y Pwyllgor CYSAG ac ysgolion wedi ei chreu. | **Adroddiadau Estyn yn canmol ysgolion o fewn y maes.** |
| **2. Gwybodaeth athrawon am y newidiadau o fewn y maes yn dda ac yn eu galluogi i gynllunio cwricwlwm newydd gyda hyder a brwdfrydedd.** | • Sicrhau bod penaethiaid, athrawon ac aelodau o'r CYSAG yn wybodus am ofynion yr Addysg Grefyddol fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau o fewn y cwricwlwm newydd.<br>• Sicrhau bod cyfleoedd i rannu arferion da rhwng ysgolion drwy edrych ar waith dysgwyr, cynlluniau gwaith ac arsylwadau gwersi anffurfiol.<br>• Sicrhau bod cysylltiad rhwng athrawon cynradd ac athrawon uwchradd o fewn MDaPh Dyniaethau er mwyn rhannu arferion da. | **Ymgynghorydd Pwnc ac Arweinwyr o ysgolion arloesi.**<br><br>**CYSAG Pwyllgor gweithredu ac ysgolion**<br><br>**Pwyllgor Gweithredu CYSAG** | • Enghreifftiau o arferion da mewn llyfrau gwaith, ar y waliau dosbarth ac ati, adroddiadau arsylwi panel CYSAG ar addoli ar y cyd.<br>• Gwaith dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y CiG ac o safon uchel.<br>• Cofnodion o gyfarfodydd.<br>• Pwyllgor gweithredu wedi ei sefydlu ac yn weithredol. | • Gwaith AG pob dysgwr yn adlewyrchu'r pedwar diben.<br>• Dysgwyr yn cael profiadau gwerthfawr o'r dysgu a'r addysgu.<br>• AG yn ran naturiol o'r dysgu ac yn cael sylw cyfartal o fewn y MDaPh.<br>• Trefniadau a strwythurau wedi eu sefydlu i fonitro ansawdd.<br>• Perthynas dda iawn rhwng cydlynwyr uwchradd a chynradd sy'n cefnogi gwelliannau parhaus. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **3. Creu platfform i rannu adnoddau er mwyn rhannu arferion da o fewn AG ac addoli ar y cyd.** | • Ychwanegu blwch Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn ar fforwm HWB Addysg Môn. | **Ymgynghorydd Pwnc.** | • Y blwch ar wefan HWB.<br>• Enghreifftiau o arferion da ynddo. | • Lleihau llwyth gwaith athrawon wrth gynllunio gwaith AG ac addoli ar y cyd.<br>• Hwyluso creu sesiynau cydaddoli i ysgolion.<br>• Banc o wersi da ac ardderchog yn cael eu rhannu rhwng athrawon er mwyn codi safon addysgu AG mewn ysgolion. | |

Tudalen 30

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru,***
***Rhithwir trwy Microsoft Teams***
***16 Tachwedd 2022***
**1.00pm – 3.30pm**

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Gwynedd Hughes (GH)<br>Non Dafydd (ND)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Chris Abbas (CA)<br>Sue Edmonds (SE)<br>Michelle Jones (MJ)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Alice Parry (AP)<br>Edward Evans (EE)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Marina Chacon - Dawson (MCD)<br>Janet Jones (JJ)<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Howard Jones (HJ)<br><br>**Ceredigion**<br>Mary Davies (MD)<br>Keith Henson (KH)<br><br>**Conwy**<br>Roger Boon (RB)<br>Collette Owen (CO)<br>Phil Lord (PL) | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Collete Owen (CO)<br>Ellie Chard (CE)<br>Phil Lord (PL)<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Jane Borthwick (JB)<br><br>**Gwynedd**<br>Sibani Roy<br>Paul Rowlinson (PR)<br>Eurfryn Davies (ED)<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tudful***<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Louise Brown (LB)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Castell-nedd a Port Talbot***<br>Fiona Thomas (FT)<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd / *Casnewydd***<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Sir Benfro / *sir Benfro***<br>*Clare Campbell (CG)* | **Powys**<br>John Mitson (JM)<br>Mike Head (MH)<br>Fiona Thomas (FT)<br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Donna Graves (DG)<br>Matthew Maidment (MM)<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Jennifer Harding-Richards (JHR)<br><br>**Torfaen**<br><br>**Bro Morgannwg / *Bro Morgannwg***<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Tania ap Siôn (TaS)<br>Libby Jones ( LJ **)**<br><br>**PYCAG**<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>***EFTRE***<br>Phil Lord (PL) | ***Sylwedyddion:***<br><br>**REMW**<br>Paul Morgan (PM)<br><br>**CBAC**<br><br>**ESTYN**<br><br>**Llywodraeth Cymru**<br><br>**REC**<br><br>**Yr Eglwys yng Nghymru**<br><br>**Gwasanaeth Addysg Gatholig**<br>Angela Keller (AK)<br><br>**Cymwysterau Cymru**<br>Kate Russell (KR)<br><br>**Rhwydwaith Rhyng-ffydd**<br><br>**CCAC**<br>Prifysgol Cymru<br>Elin Stock (ES)<br><br>**Cofnodion (o'r recordiad)**<br>Jo Nicholls (JNI) |

DRAFT

## Cofnodion y cyfarfod

### 1. Cyflwyniad a chroeso

Croesawodd TaS bawb i gyfarfod yr Hydref a diolchodd i CYSAG Blaenau Gwent am gynnal y cyfarfod. Cyflwynodd TaS y Cynghorydd Sue Edmonds, Aelod Cabinet dros Bobl ac Addysg a Chadeirydd CYSAG Blaenau Gwent. Croesawodd Sue Edmonds bawb ar ran y CYSAG sy'n croesawu a dywedodd fod hon yn rôl newydd iddi, ers etholiadau lleol mis Mai. Soniodd SE ei bod yn mwynhau dod i adnabod yr ysgolion a'r amgylcheddau dysgu yn y fwrdeistref ac, fel y grŵp hwn i gyd, mae hi'n anelu at godi safonau addysgol a chyfleoedd i bobl ifanc.

Dywedodd SE ei bod yn anrhydedd cael cynnal cyfarfod CCYSAGauC yn ystod y cyfnod cyffrous hwn i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yng Nghymru. Cydnabu SE waith caled ac ymroddiad pawb a gymerodd ran i sicrhau bod y maes llafur cytunedig yn cael ei gwblhau. Dywedodd SE ein bod ni i gyd ar daith i gyflwyno'r cwricwlwm newydd gan weithio i weld ein dysgwyr yn dod yn gyfranwyr uchelgeisiol, mentrus a chreadigol, yn ddinasyddion moesol a gwybodus am Gymru a'r Byd ac yn unigolion iach a hyderus.

Mae CGM yn gwneud cyfraniad enfawr yn y daith a bydd yn parhau i gael rhan allweddol yn addysg eang pobl ifanc Cymru. Diolchodd SE i bawb sy'n ymwneud ag addysg ledled Cymru am eu hymroddiad parhaus i blant ifanc yng nghanol y newidiadau sylweddol hyn. Nododd SE, wrth ddod dros Covid19 a nawr yn argyfwng costau byw, fod set unigryw o heriau i ysgolion a'r staff a'r plant a'r teuluoedd y maent yn eu cefnogi. Mae staff ysgolion wedi dangos yr hyn yr oeddem i gyd yn ei wybod, sef eu bod yn rhyfeddol, yn wydn ac yn ysbrydoledig. Rhannodd SE ei hyder y bydd pawb ym myd addysg yn cyd-dynnu unwaith eto i weld ein plant drwy'r cyfnod hwn.

Diolchodd TaS i SE am ei geiriau perthnasol.

### 2. Myfyrdod tawel

Arweiniodd TaS fyfyrdod tawel.

Bu'r ychydig flynyddoedd diwethaf yn hanfodol ac yn ffurfiannol i addysg grefyddol neu CGM erbyn hyn. Mae cynifer ohonom, yn lleol a chenedlaethol wedi rhoi cymaint o amser ac egni i fod yn y lle cyffrous hwn, lle llawn cyfleoedd.

Yr ydym yn awr mewn cyfnod newydd pwysig; roedd mis Medi yn nodi cyflwyniad swyddogol y cwricwlwm newydd i Gymru yn ein holl ysgolion cynradd a rhai ysgolion uwchradd. Bydd y cyfnod newydd hwn yn cael ei nodi fel cyfnod o gyfrifoldeb gwirioneddol a pheryglon gwirioneddol. Yng Nghymru, rydym wedi gosod tasg enfawr i ni ein hunain i wneud pethau'n wahanol er mwyn ein pobl ifanc. Mae hyn yn golygu bod yn agored i newid, yn agored i ddysgu oddi wrth a gyda'n gilydd a bod yn ddigon dewr i fod yn greadigol annibynnol. Yn y cyfnod newydd hwn mae yna demtasiwn go iawn i gymryd y llwybr hawdd. Mae'r byd yn edrych arnom ni ar hyn o bryd ac mae pobl ifanc yn edrych atom ni.

Ydyn ni'n barod i wynebu'r her, ac a yw'n rhywbeth sy'n wirioneddol bwysig i ni yn ein lleoliadau amrywiol o amgylch Cymru ac yn ein rolau amrywiol?

### 3. Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau gan Kathy Riddick, Paula Webber a Vicky Barlow o'r Pwyllgor Gwaith. Christopher Owens CBAC, Philip Blaker Cymwysterau Cymru, y Cynghorydd Sam Skyrme-Blackhall Sir Benfro, y Cynghorydd Menna Baines CYSAG Gwynedd a'r Cynghorydd Michael Williams CYSAG Powys.



DRAFT

## 4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 ar Microsoft Teams

RS i'w ychwanegu at y rhestr bresenoldeb o dan Gastell-nedd Port Talbot.

Gyda'r newid uchod, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2002. Cynigiodd RS dderbyn y cofnodion ac eiliodd EE.

Bydd TaS yn llofnodi'r cofnodion terfynol a bydd AP yn ffeilio'r cofnodion.

## 5. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGauC

Bydd unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfod yn cael eu trafod neu eu hystyried yn ein cyfarfod heddiw.

## 6. Dysgu proffesiynol

Rhoddodd LJ y diweddariad canlynol:

Rydym wedi bod yn aros yn eiddgar am adnoddau DP ac wedi gobeithio y byddai'r adnoddau wedi eu cyhoeddi ar Hwb erbyn hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod pob un o'r 5 modiwl o'r swp cyntaf o adnoddau wedi bod trwy broses sicrhau ansawdd. Cyflawnwyd y broses gan gydweithwyr polisi, y tîm cwricwlwm a chydweithwyr Hwb ac mae wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd maint cyffredinol y gwaith sy'n ymwneud â'r cwricwlwm gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae pob un o'r 5 modiwl bellach wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg a bydd angen eu gwirio o ran ansawdd wedyn. Rydym yn aros i glywed gan dîm Hwb ynglŷn â dyddiad cyhoeddi. Disgwylir iddo fod yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Mae'n siomedig bod y swp cyntaf hwn eto i'w gyhoeddi ond mae ansawdd yr adnoddau hyn yn uchel iawn. Pan fyddant ar gael i ysgolion ac ymarferwyr, rydym yn hyderus y byddant yn amhrisiadwy. Er y bu oedi anffodus, rydym yn falch iawn o'r ansawdd.

Rhannodd LJ fideo o astudiaeth achos o un o'r adnoddau - ' *Beth sydd wedi newid o fewn y lleoliad uwchradd; Sesiwn 5 - Mabwysiadu dull cynllunio sy'n seiliedig ar gysyniad'* .

Roedd y recordiad yn dangos enghraifft ymarferol gan AP, Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd. Dangosodd AP sut mae canllawiau CGM, y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, yr is-lensys CGM a'r cysyniadau CGM wedi'u hintegreiddio i thema gyffredinol yr ysgol i greu modiwl cynllunio ymarferol ar gyfer gwersi blwyddyn 8.

Diolchodd LJ i AP am yr astudiaeth achos ragorol.

Soniodd LJ fod yna gyfle ar gyfer yr holl adnoddau i ymgysylltu'n feirniadol â'r adnodd. Ar y diwedd mae'n rhestru cwestiynau fel - Beth oedd yn arbennig o ddefnyddiol? Pa gysyniadau CGM fyddech chi'n dewis edrych arnynt?

LB: Diolchodd i AP ac LJ am y cyflwyniad, roedd ychydig yn bryderus ar yr ochr tarddiad, y gallai'r damcaniaethau gwyddonol danseilio dysgeidiaeth ffydd. Angen sicrhau bod gan yr hyn sy'n cael ei ddysgu lefel ddyfnach o ddealltwriaeth.

LJ: Mae ffydd yn dal i fod yn rhan bwysig o archwilio'r dechreuad, ac edrychir yn feirniadol ar wyddoniaeth a ffydd. Mae athrawon yn broffesiynol ac yn ymwybodol o'u pwnc a'r hyn y mae'n ei olygu a bydd y cwestiynau ynghylch ffydd yn cael eu harchwilio ac mae llawer o feysydd o gynllunio AP lle gellir ymgorffori ffydd. Mae llawer o ysgolion yn cysylltu

gwyddoniaeth a chrefydd. Maent yn sôn am wyddonwyr crefyddol a sut mae cysylltiad ac nad ydynt yn ddau faes gwahanol.

AP: Wrth ddatblygu'r offeryn dysgu proffesiynol i athrawon nid yw'n gor-symleiddio'r safbwyntiau gwyddoniaeth a ffydd ac mae'n dangos yr elfennau cyflenwol a beirniadol. Mae llunio cynllun gwaith i hwn yn dal i fynd rhagddo.

TaS : Mae'r sgwrs hon bellach yn dangos yn union y math o ymgysylltu ag ymarferwyr y mae'r astudiaethau achos hyn yn ei gychwyn. Rydym yn annog y rhyngweithio hwn.

RB: Mae'r fersiwn hon yn amlinellu pa mor bwysig yw hi wrth ddewis y deunyddiau priodol ac agor meddyliau myfyrwyr yn hytrach na rhoi barn gaeedig iddynt. Mae angen i athrawon fod yn ymwybodol fod yn rhaid iddynt fod yn feirniadol eu hunain wrth ddewis y deunyddiau cywir. Roedd cyflwyniad AP yn ysbrydoledig. Ei phryder mawr yw nad oes digon o arbenigwyr addysgu CGM. Gofynnir i'r rhai sydd â chefndir cyfyngedig addysgu hyn. A fyddant yn cael lefelau priodol o gymorth wrth addysgu'r cwricwlwm? Pryder sy'n cael ei rannu gan eraill.

MCD: Ydych chi'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr archwilio crefyddau newydd sy'n cael eu cynrychioli lai yn y gymuned? Mae'r traddodiad Vedic wedi'i eirio fel '*Gwyddor ddadlennol Duw yw hi,* ' sy'n ddiddorol mewn perthynas â sylwadau LB.

AP: Ydyn, byddai'r cynllun gwaith nesaf yn cynnwys y grwpiau ffydd hynny â llai o gynrychiolaeth o fewn y gymuned leol.

MD: Sawl modiwl sydd yna i gyd? A oes ystyriaeth i ryddhau fersiwn Saesneg y 5 modiwl cyn y cyfieithiadau Cymraeg? Mae gwir eu hangen.

LJ: Bydd 5 modiwl arall yn mynd allan yn fuan ar ôl y swp cyntaf hwn. Mae hon yn gyfres barhaus o adnoddau a bydd yn cael ei chreu fel a phan fo angen. Y polisi ar Hwb yw bod pob cyhoeddiad i fod yn ddwyieithog, ond af yn ôl at Hwb gyda'r awgrym hwnnw.

SR: Tarddiad Hindŵaidd y greadigaeth: dywedwn ei fod yn dragwyddol ac yn esblygiad o Dduw, nid ydym yn rhoi unrhyw flynyddoedd arno.

PM: Llongyfarchiadau i AP ar ymarfer cynllunio trawiadol iawn. Tybed a fu unrhyw gydweithio â'r adrannau gwyddoniaeth wrth fynd i'r afael ag agweddau gwyddonol y math hwn o gynllunio ar yr uned benodol honno. A wnaeth athrawon gwyddoniaeth fynd i'r afael â'r thema tarddiad yn eu cynllunio mewn ffordd a oedd yn asio'r dull CGM?

AP: Rydym yn gweithio fel Dyniaethau ac yn treialu'r dull hwn o gynllunio. Ni wnaethom weithio gyda'r adran wyddoniaeth ar gyfer y darn hwn o gynllunio, ond rydym yn bwriadu gwneud hyn yn y dyfodol, gan mai'r thema a roddir i ni yw dull 'ysgol gyfan'.

Diolchodd TaS i LJ ac AP ac am y cyfraniadau gan y grŵp.

**GWEITHREDU:** LJ i ofyn i Hwb a oes modd rhyddhau'r 5 modiwl cyntaf cyn y cyfieithiadau Cymraeg.

**7. Materion Llywodraeth Cymru:**

**i) Cyfarfodydd**

Rhoddodd TaS ddiweddariad o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13 Medi 2022. Roedd TaS ac LJ yn cynrychioli CCYSAGauC, ac roedd RS yn bresennol fel cynrychiolydd PYCAG. Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru oedd John Pugsley (JP) a Kerry Davies (KD).

- Gofynnodd CCYSAGauC am ddiweddariadau i'r crynodeb cyfreithiol ar Hwb gan



DRAFT

nad oedd rhai o'r ceisiadau newid blaenorol wedi'u gwneud. Nodwyd gennym hefyd fod adran newydd wedi'i hychwanegu. Diben y ceisiadau hyn am newid yw ychwanegu eglurhad yn unig at y crynodeb cyfreithiol. Roedd CCYSAGauC wedi anfon fersiwn anodedig o'r crynodeb cyfreithiol a bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hyn. Bydd KD yn rhoi gwybod i ni am y diweddariad nesaf ar Hwb.

- Roedd eitem ar yr agenda ynghylch cyfathrebu ar Dysg. Nodwyd bod diweddariad CGM yn rhifyn Gorffennaf 2022. Ar gyfer rhifynnau'r dyfodol hoffent gynnwys astudiaethau achos. Rydym yn deall ei bod yn ddyddiau cynnar o ran astudiaethau achos. Mae LJ wedi cyfathrebu â KD i ofyn am ragor o fanylion ynghylch sut y dylai'r astudiaethau achos hyn edrych. Rydym yn gweithio gyda PYCAG a'r ymgynghorwyr yn PYCAG i gaffael a sicrhau ansawdd astudiaethau achos.

- Siaradom am statws Cylchlythyr 10/94, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru eto fod Cylchlythyr 10/94 yn dal yn berthnasol ar gyfer addoli ar y cyd ond mae'n argymell cyfeirio at Hwb ar gyfer CGM i'r Cwricwlwm i Gymru. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fydd yn rhannu hyn yn ehangach â ChYSAGau ac ALlau. Cadarnhawyd hefyd eu bod yn edrych ar ffyrdd o symud hyn yn ei flaen a byddant yn cysylltu â CCYSAGauC. Mae dogfen EE ar addoli ar y cyd wedi cael ei e-bostio at KD er gwybodaeth.

- Gofynnwyd am ganllawiau ar gynnydd. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw ganllawiau newydd ar ddilyniant ar gyfer y cwricwlwm etifeddol a bod yr holl ganllawiau ar gynnydd ar Hwb. Bydd KD yn gofyn a oes unrhyw beth penodol a fyddai o gymorth i ni a bydd yn anfon dolen. Rydym wedi gofyn am gyfarfod gyda chydweithwyr Estyn i drafod cynnydd. Rydym yn ceisio cytuno ar ddyddiad ar hyn o bryd. Bydd ein Haelodau Gweithredol sy'n athrawon yn cymryd rhan yn y cyfarfod hwn.

- Gofynnwyd am effaith bosibl her rhieni i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar CGM ac a oes unrhyw effaith ar CGM? Nid oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl unrhyw effaith.

- Cytunwyd i barhau â'n cyfarfodydd bob dau fis.

DG: O ran cynghori ein CYSAGau lleol, nid yw mater monitro safonau ar gyfer CGM wedi cael sylw ac nid oes atebion wedi'u cynnig eto.

TaS: Mae'n rhaid i ni fynd â hwn i'r cyfarfod nesaf.

LB: Mewn perthynas â Chylchlythyr 10/94 - mae'n dal yn berthnasol i'r ochr grefyddol ac yn cynnwys sut mae pleidleisio yn digwydd, er bod angen ei ddiweddaru mae'n dal yn ddogfen bwysig i'r CYSAGau.

RB: Ategaf y pwynt am fonitro safonau. Roedd yn bwnc amlwg yng nghyfarfod diwethaf CYSAG Conwy. Falch o weld y bydd yn cael sylw.

JHR: Wedi cael ymholiadau gan ysgolion ynghylch natur orfodol CGM 3 -16 oed. Effeithio'n arbennig ar ysgolion cynradd yr adeg hon o'r flwyddyn gyda dramâu'r geni, straeon y Nadolig ac ati. Mae grŵp bach o gynrychiolwyr yn y gymuned yn gofyn i'w plant gael eu tynnu allan o'r gweithgareddau hyn. Rydym yn trafod gydag ysgolion sut i wahaniaethu rhwng CGM ac addoli ar y cyd ac ethos a diwylliant yr ysgol. Rydym yn

ymwybodol nad oes hawl i dynnu'n ôl ond gofynnwn am eglurhad ar sut yr ydym yn gwahaniaethu rhwng yr agweddau hynny ar gyfer cydweithwyr cynradd.

LJ: Mae’n gydbwysedd bregus i rai ysgolion, ac mae’n profi’n heriol. Byddwn yn mynd â hwn i gyfarfod LlC ac yn gofyn am gyngor.

LB: O ran CGM, mae'r cwricwlwm yn dal i fod i adlewyrchu'r ffaith bod y traddodiadau crefyddol yn Gristnogol fel y'u cynrychiolir yng Nghymru ac i ystyried y prif grefyddau eraill hefyd. Byddai stori’r geni yn dod o fewn y maes hwn mewn gwirionedd ac nid yw addoli ar y cyd yn cael ei effeithio gan y newid hwn yn y cwricwlwm.

**GWEITHREDU:** Ychwanegu at agenda cyfarfod nesaf Llywodraeth Cymru: 1) Monitro safonau 2) Sut i wahaniaethu rhwng CGM, addoli ar y cyd ac ethos yr ysgol.

**ii) Meysydd Llafur Cytunedig**

Atgoffodd TaS y CYSAGau i anfon copi o'r maes llafur cytunedig at KD ac at AP Ysgrifennydd CCYSAGauC. Anfonwyd e-bost atgoffa gan AP at Glercod CYSAG.

Bydd yr holl feysydd llafur yn cael eu hychwanegu at wefan CCYSAGauC. Dywedodd AP fod 12 maes llafur cytunedig wedi dod i law hyd yma.

Gofynnodd TaS a oedd unrhyw faterion yr hoffai CYSAGau eu cyflwyno i CCYSAGauC ynghylch y maes llafur cytunedig. Ni chodwyd unrhyw faterion.

**iii) Adroddiadau Blynyddol**

Dywedodd TaS fod PYCAG wedi derbyn e-byst gan ymgynghorwyr newydd yn holi beth sy'n ofynnol yn yr adroddiadau blynyddol. Nodwyd hefyd bod rhai agweddau o'r adroddiad blynyddol wedi dyddio. Nid yw hwn yn gwestiwn newydd ac mae angen dod â hyn yn ôl i drafodaeth yn enwedig yng ngoleuni'r cwricwlwm newydd i Gymru. O ganlyniad, mae Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC wedi cytuno i roi'r eitem hon ar agenda'r cyfarfod nesaf gyda Llywodraeth Cymru.

Soniodd EE fod cynhadledd wedi ei galw flynyddoedd yn ôl i drafod yr adroddiadau blynyddol. Casgliadau'r gynhadledd hon oedd y byddai'r adroddiadau blynyddol yn ymdrin â 4 prif bwynt: 1) Cyflwyniad; 2) Crynodeb o gyngor CYSAG i'r ALl ar addysg grefyddol; 3) Crynodeb o gyngor CYSAG ar addoli ar y cyd; a 4) Crynodeb o faterion eraill. Dyma lle y cafodd ei adael, ni chymeradwywyd y casgliadau ac nid oes ganddynt unrhyw awdurdod. Dyma’r amser gyda’r cwricwlwm newydd i asesu a yw’r 4 maes hyn yn dal yn berthnasol ym myd addysg heddiw.

Diolchodd TaS i gydweithwyr PYCAG am ein hatgoffa o'r mater hwn.

RB: Bydd CYSAGau unigol yn datblygu eu fformatau eu hunain, rwyf wedi gweld llawer ac mae rhai yn rhagorol. Yng Nghonwy bellach mae gennym gynllun rheoli 3 blynedd, a bydd diweddariad o hwn yn mynd i mewn i'r adroddiad blynyddol.

PR: A ellir rhannu’r casgliadau o’r gynhadledd y soniodd EE amdanynt â’r grŵp?

TaS : Argymhellir er mwyn osgoi dryswch nad yw'r ddogfen hon yn cael ei dosbarthu'n eang gan ei bod yn hen ddogfen, ac mae'r pwnc hwn bellach i'w adolygu. TaS yn awgrymu ei anfon at PR yn unig.

**GWEITHREDU** : EE i anfon copi o'r casgliadau at AP i'w hanfon ymlaen i PR.

**iv) Materion eraill**

Soniodd LJ fod rhywfaint o ddryswch ynghylch CYSAG a CYS, oherwydd brawddeg ar y canllawiau ar Hwb, roedd y canllawiau deddfwriaethol yn nodi y bydd CYSAG yn cael ei ddisodli gan CYS.

Ysgrifennodd LJ at Lywodraeth Cymru am gyngor cyfreithiol. Darllenodd LJ y datganiad canlynol gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru – " *Gan ein bod yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn raddol ac o ystyried bod yr hen CYS neu CYSAG wedi'u cyfansoddi'n wahanol a bod ganddynt swyddogaethau ychydig yn wahanol, mae angen iddynt gydfodoli â'r cyrff newydd tra bod gennym ni o hyd. blynyddoedd ysgol etifeddol ar yr hen gwricwlwm felly tan 2025, bydd angen iddynt gydfodoli* ".

Ychwanegodd cydweithiwr yn Llywodraeth Cymru a ofynnodd am y cyngor hwn gan y cyfreithiwr mai mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu sut i reoli'r sefyllfa hon. Mae'n bosibl y byddai aelodaeth o'r CYS/CYSAG yr un fath, ond dim ond pe bai cyfle yn CYSAG i ddeiliaid argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol fod yn bresennol ar Bwyllgor A y gallai fod yr un fath. Fel enghraifft, mae CYSAG Wrecsam wedi bod yn sôn am gynnal cyfarfodydd CYSAG a CYS ar y cyd. Yn Wrecsam gall yr aelodaeth fod yr un fath gan fod aelod o Bwyllgor A ar CYSAG sy'n dal argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol. Yr un fydd yr aelodaeth a'r cyfansoddiad. Rydym yn bwriadu i'r cyfarfodydd fod yn gyfarfodydd ar y cyd tan 2025.

Dywedodd LJ fod yr wybodaeth hon wedi'i hanfon at Ymgynghorwyr AG a CGM ond nid at y CYSAGau.

JHR: Yn argymell rhannu'r wybodaeth hon gyda chlercod CYSAG i'w ddosbarthu ymlaen i'r timau cyfreithiol. Fformat i fod yn fyr ac yn ffurfiol.

**GWEITHREDU** : CCYSAGauC i anfon hysbysiad ffurfiol at GYSAGau ynghylch CYS a CYSAG

**8. Cyflwyniad PYCAG: Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru: TGAU Newydd – Astudiaethau Crefyddol (AC).**

Nododd TaS fod y ddolen https://dweudeichdweud.cymwysterau.cymru wedi'i rhannu gyda'r aelodau cyn y cyfarfod fel rhan o'r agenda. Dywedodd TaS nad oedd PW yn anffodus yn gallu bod yn bresennol heddiw, ac y byddai RS yn rhoi'r cyflwyniad.

Cyflwynodd RS Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar gynnig dyluniad y TGAU newydd. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 12 Rhagfyr 2022, a bydd PYCAG a CCYSAGauC yn darparu ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r TGAU hyn yn cael eu cynllunio gan ystyried camau dilyniant 4 a 5 o'r Cwricwlwm i Gymru. Cynnig dylunio yw hwn; nid yw'n gynnwys cwrs y byddai'r Bwrdd Arholi yn ei greu.

Bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei ddosbarthu i'r CYSAGau ar ôl y cyfarfod hwn.

Diolchodd TaS i RS am y cyflwyniad hwn a diolchodd i gydweithwyr PYCAG am eu mewnbwn. Awgrymodd TaS y dylai CYSAGau ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad.

MM: Mae hwn yn ymateb ardderchog i'r cynnig newydd. Y pryder mwyaf yw'r asesiad heb fod yn TGAU, sut mae cael y CGM gorfodol ar gyfer disgyblion nad ydynt yn dilyn y cwrs. O ran yr asesiad, nid wyf yn hoffi'r syniad o'r asesiad llinol, os gallant gael rhywbeth ym mlwyddyn 10 byddai hynny'n fonws. Mae'r TGAU cyfredol mor drwm o ran cynnwys; bydd

ei dorri i fyny i fodiwlau yn lleddfu hyn. Pryderu am y gwaith cwrs a maint a chynnwys y cwrs. Dylai'r pynciau fod yn ddeniadol ac yn berthnasol. Pynciau apelgar yn y gorffennol oedd bodolaeth a natur Duw, rhyfel, cosb, maddeuant, erthyliad, ewthanasia, a moeseg feddygol.

RB: Mae Conwy wedi bod yn bryderus ers peth amser bod y TGAU yn academaidd iawn ac nad yw'n briodol ar gyfer anghenion yr holl ystod gallu. Gan nad oes cwrs byr, rydym felly'n croesawu cymhwyster Agored sydd â'r posibilrwydd o fod yn gyfwerth â TGAU. Fe'i cynlluniwyd ar draws yr ystod gallu ac mae'n gyson â nodau cyffredinol y cwricwlwm i Gymru. Rydym yn y broses o ysgrifennu at holl athrawon a phenaethiaid dyniaethau, yn eu hannog i edrych ar gwricwlwm Agored. Mae penaethiaid uwchradd wedi bod yn gyffrous am y cymhwyster newydd hwn.

Cadarnhaodd TaS y bydd modiwlau newydd ar gael ar wefan Agored Cymru ym mis Tachwedd. Bydd LJ yn derbyn deunydd hyrwyddo ar gyfer y cwrs arbennig hwn.

Pwysleisiodd TaS os oes unrhyw gwestiynau, neu sylwadau ychwanegol ar yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at AP. Bydd CCYSAGauC yn ystyried y rhain wrth gynhyrchu ei hymateb i'r ymgynghoriad.

**9. Diweddariadau:**

- **REC**
  Nid oedd KR yn gallu mynychu'r cyfarfod, nid oedd unrhyw ddiweddariad.

- **EFTRE**
  Dywedodd TaS ei bod yn bwysig i ni yng Nghymru fod yn gysylltiedig ac mewn sgwrs â'n cydweithwyr Ewropeaidd.
  PL: Does dim cyfarfod wedi bod ers cyfarfod yr haf. Mae gwefan EFTRE wedi'i hailfrandio ac mae ganddi adnoddau da iawn. Mae'n ddefnyddiol fel dealltwriaeth sylfaenol o'r gwahanol systemau addysg grefyddol ar draws Ewrop. Mae PL yn argymell darllen adroddiadau'r gwledydd. Bydd PL yn mynychu'r gynhadledd yn Rhufain yr Hydref nesaf 2023. Gofynnodd PL a fyddai'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried rhoi cefnogaeth ariannol i ddau athro fynychu'r gynhadledd hon i gefnogi'r cyd-destun addysgu Cymraeg. Bydd TaS yn cyflwyno prosiect ymchwil yn y gynhadledd hon sy'n cynnwys Cymru a gwledydd Ewropeaidd eraill.
  **GWEITHREDU:** Cyflwyno'r cynnig i ariannu athrawon i fynychu'r gynhadledd hon i'r Pwyllgor Gwaith.

- **REMW**
  Cafodd PM anhawster gyda'r sain a bydd yn e-bostio AP gydag unrhyw ddiweddariadau.

- **PYCAG**
  PL: Cyfarfu PYCAG yr wythnos diwethaf, mae RS wedi cyflwyno trafodaeth PYCAG ynghylch modiwlau DP. Cawsom ddiweddariadau hefyd gan ein haelodau ein hunain.

- **Rhwydwaith Rhyng-ffydd**
  LJ: Mae'r wythnos ryng-ffydd ar hyn o bryd yn rhedeg o 13 Tachwedd i 20 Tachwedd 2022. Fe'i cynhaliwyd ers 2009 ac mae'n cryfhau dealltwriaeth a chydweithrediad rhyng-ffydd. Mae'n tynnu sylw at gyfraniad grwpiau ffydd i gymdeithas ac mae hefyd yn annog deialog rhwng y rhai sydd â chredoau crefyddol ac anghrefyddol. Mae CCYSAGauC eisoes wedi dosbarthu dolen i GYSAGau sy'n caniatáu i ysgolion gyflwyno gweithgaredd ar wefan y Rhwydwaith**.**

- **Estyn**
  Darllenodd AP yr adroddiad ysgrifenedig canlynol a ddarparwyd gan Michaela Benjamin (MB), Estyn, gyda'r bwriad o'i rannu yn y cyfarfod hwn **.**

  Adroddiad Estyn: Ein rôl ni yw ystyried ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym hefyd yn cynnig cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant, yn bennaf trwy adroddiadau thematig a'n hadroddiad blynyddol .

  O fewn ein fframwaith arolygu presennol, mae sawl maes sy'n cyfeirio at agweddau ar CGM. Er enghraifft, dylai arolygwyr ystyried:

  - **Maes Arolygu 2** :
    Pa mor dda y mae pob disgybl yn datblygu fel dinasyddion moesegol, gwybodus, er enghraifft trwy eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a hawliau plant

  - **Maes Arolygu 3**
    Wrth arfarnu cwricwlwm y darparwr ac ansawdd y profiadau dysgu, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda:
    - mae'r cwricwlwm eang a chytbwys yn adeiladu'n systematig ac yn gydlynol ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau presennol disgyblion i sicrhau dilyniant wrth iddynt symud drwy'r ysgol
    - mae'r cwricwlwm yn darparu ehangder a dyfnder priodol o brofiadau dysgu i ddisgyblion ar draws pob disgyblaeth a maes dysgu a phrofiad, i ddatblygu eu diddordebau a'u medrau ehangach a chefnogi meddwl beirniadol ac arloesedd.

  - **Maes Arolygu 4**
    Dylai arolygwyr ystyried a yw diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Ym mhob ysgol nad yw'n darparu addysg enwadol, dylai arolygwyr ystyried a oes gweithredoedd priodol o addoli ar y cyd. Mae trefniadau eraill mewn lle i arolygu'r agwedd hon mewn ysgolion enwadol.

    Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol neu'r UCD:

    - yn helpu disgyblion i ddeall materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a datblygu gwerthoedd cyffredin fel parch, empathi, dewrder a thosturi
    - helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill, yn lleol ac fel aelodau o fyd amrywiol, ac yn hyrwyddo hawliau dynol
    - herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau disgyblion
    - hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg
    - darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio eu credoau ysbrydol a moesegol
    - datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar gwestiynau sylfaenol ac ar eu credoau neu werthoedd eu hunain

  - **Maes Arolygu 5**
    - Dylai arolygwyr arfarnu'r graddau y mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir. Dylent ystyried a oes nodau priodol, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu i fodloni anghenion pob disgybl.

- Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel cadw disgyblion yn ddiogel, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, paratoi ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.
- Dylai arolygwyr arfarnu'r graddau y mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff. Dylent ystyried a yw dysgu proffesiynol i wella addysgu a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru wedi cael effaith gadarnhaol wrth ddatblygu darpariaeth ystafell ddosbarth sy'n bodloni anghenion dysgwyr.

**Y Cwricwlwm**

Yn ystod ein harolygiadau eleni, bydd arolygwyr yn mabwysiadu ymagwedd bragmatig at arolygu'r cwricwlwm. Rydym yn cydnabod:

- y bydd ysgolion yn parhau i ddatblygu ac esblygu eu cwricwlwm dros amser wrth iddynt wella eu dulliau.
- bod ysgolion ar wahanol adegau o'u taith tuag at gyflwyno'r cwricwlwm.
- yn y sector cynradd, byddwn yn meddwl am sut mae ysgolion wedi cymryd camau i ddatblygu a dechrau gwerthuso eu cwricwlwm a sut maent wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i rannu a datblygu eu dulliau ymhellach.
- bydd angen inni ystyried y dyddiad dewisol, sef 2023, i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith wrth arolygu ysgolion uwchradd.
- mae rhai ysgolion yn cymryd camau tuag at ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm a'u haddysgu i gefnogi dylunio a darparu'r Cwricwlwm i Gymru.

Byddwn yn ystyried:

- A yw'r addysgu yn effeithiol o ran sicrhau cwricwlwm a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel i ddisgyblion
- Pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol ar draws pob disgyblaeth a maes
- A yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth, sgiliau a'u dealltwriaeth ar draws yr ystod o ddisgyblaethau / meysydd pwnc
- Pa mor dda y mae cwricwlwm yr ysgol yn diwallu anghenion eu dysgwyr
- A yw athrawon yn manteisio ar y cyfleoedd i archwilio ymagweddau at y cwricwlwm ac addysgu

Nid ydym yn ffafrio unrhyw ymagweddau at ddylunio neu gyflwyno'r cwricwlwm. Byddwn yn ystyried effeithiolrwydd cwricwlwm ysgol o ran sicrhau profiadau dysgu o ansawdd uchel a chynnydd i'w disgyblion. Rydym yn cydnabod y gall fod rhai camsyniadau neu fythau am ein disgwyliadau ynghylch y cwricwlwm.

- Camsyniad neu chwedl gyffredin yw ein bod yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion fabwysiadu dull amlddisgyblaethol neu thematig o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Er y gall rhai ysgolion fabwysiadu'r dull hwn, nid yw'n ofyniad yn y cwricwlwm nac yn ein fframwaith arolygu. Lle mae ysgolion yn defnyddio'r dull hwn, bydd yn bwysig bod arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae athrawon yn sicrhau gwybodaeth, medrau a phrofiadau disgyblion o'r disgyblaethau penodol yn ogystal â gwneud y cysylltiadau rhwng y dysgu sy'n digwydd.
- Rydym wedi clywed gan nifer o ysgolion eu bod yn meddwl y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatblygu gweledigaeth ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad unigol a'r sgiliau ehangach. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig nodi nad dyna yw ein disgwyliad. Er nad oes gennym unrhyw ddull dewisol, rydym wedi

gweld pethau'n gweithio'n dda lle mae gan ysgol un weledigaeth ysgol gyfan ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu y mae pawb yn ei deall ar bob lefel. Mae hyn yn galluogi gwahanol feysydd pwnc i ddatblygu eu haddysgu a'u dysgu yn unol â gweledigaeth yr ysgol ac i weddu i'r dysgu yn eu maes.

**GWEITHREDU** : AP i wirio gyda MB a oes modd rhannu'r adroddiad hwn a'r ddolen yn uniongyrchol gyda ChYSAGau.

- **CBAC**

Rhoddodd LJ y diweddariad canlynol:

Christopher Owens (CO) yw'r swyddog pwnc rhan-amser newydd ei benodi ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol CBAC. Mae CO yn brofiadol iawn ac yn gyn bennaeth Astudiaethau Crefyddol mewn nifer o ysgolion yng Nghymru a Lloegr. Roedd CO yn gyn-brif arholwr astudiaethau crefyddol TGAU ar gyfer Eduqas ac i CBAC ar lefel mynediad TGAU ac UG.

Mae CO wedi cymryd yr awenau gan Lynda Maddock (LM). Mae ffocws LM bellach fel Swyddog Pwnc CBAC ar gyfres gymwysterau Eduqas. Mae perthynas gefnogol LM gyda CCYSAGauC trwy PYCAG yn ymestyn dros bron i 20 mlynedd. Bu LM yn cynrychioli AU, AB a CBAC. Diolchodd LJ i LM, ar ran PYCAG a CCYSAGauC, am ei gwasanaeth i AG yng Nghymru a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol.

Roedd cyfres arholiadau'r haf diwethaf yn llwyddiannus iawn gydag ymgeiswyr yn ennill ystod o raddau ar draws yr holl bapurau. Ychydig iawn o geisiadau a gafwyd am adolygiadau o farciau. Mae ffiniau gradd yn debygol o godi yng nghyfres yr haf nesaf er mwyn cyd-fynd â ffiniau cyn-Covid19. Bydd CBAC yn darparu gwybodaeth am wybodaeth fanylach ar gyfer arholiadau TGAU cyfres yr haf yn ddiweddarach. Mae sawl sesiwn DPP CBAC ar gael yn nhymor yr Hydref a'r Gwanwyn:

- 9 Rhagfyr 2022 - De Cymru, CYDAG cyfrwng Cymraeg – wyneb yn wyneb.
- 12 Rhagfyr 2022 - Caerdydd, cyfrwng Cymraeg a Saesneg – wyneb yn wyneb
- 14 Rhagfyr 2022 – Llandudno, cyfrwng Cymraeg a Saesneg - wyneb yn wyneb
- 11 Ionawr 2023 - cyfrwng Saesneg – o bell
- 12 Ionawr 2023 - cyfrwng Cymraeg – o bell. Mae'r dyddiad hwn i'w gadarnhau gan ei fod yn dibynnu ar niferoedd presenoldeb. Bydd CCYSAGauC yn rhoi gwybod am unrhyw ddiweddariadau

Mae CBAC yn annog athrawon i ymgysylltu ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynigion ar gyfer cynllun astudiaethau crefyddol TGAU i ddechrau ei addysgu ym mis Medi 2025. Dylai athrawon nodi yn y cynigion y posibilrwydd o asesiadau di-arholiad wedi'u marcio gan y ganolfan a'u safoni gan CBAC, a bod pob asesiad i'w cwblhau ym mlwyddyn 11 ac nad oes cwrs byr. Bydd CBAC yn dechrau gweithio ar y fanyleb TGAU newydd ym mis Ionawr 2023.

- **Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2022**

Dywedodd TaS fod y pynciau o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwaith wedi cael sylw yn yr agenda. Yn ogystal, cafwyd trafodaeth lawn ar y cynllunio gweithredol ar gyfer cyfarfodydd CCYSAGauC yn y dyfodol o ran y fformat - ar-lein, wyneb yn wyneb neu hybrid. Cyflwynodd LJ bapur trafod, a phenodwyd gweithgor a fydd yn cyfarfod ym mis Rhagfyr. O'r cyfarfod hwn, bydd cynigion yn cael eu datblygu i'r Pwyllgor Gwaith eu trafod, yn ganolog i hyn y mae darparu cyfleuster cyfieithu Cymraeg ym mhob cyfarfod.

**10. Gohebiaeth**

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

**11. Unrhyw fater arall (i'w gytuno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)**
Dim unrhyw fater arall.

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 21 Mawrth 2023, Sir Benfro.**

Bydd manylion pellach yn cael eu hanfon maes o law.

Diolchodd TaS i Flaenau Gwent am gynnal y cyfarfod, i'r holl gyflwynwyr a'r mynychwyr am eu cyfraniadau.

DRAFT

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd* /Chair:
The Revd Dr Tania ap Siôn
Gelli Wen, Llanfairpwllgwyngyll, Anglesey, LL61 6EQ
e-bost/e-mail: smc.taniaapsion@gmail.com

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Ms Alice Parry
39 Galleon Way, Cardiff Bay, CF10 4JA
e-bost/e-mail: ParryA274@hwbcymru.net
*ffôn/tel*: 07779 168084

31 Ionawr 2023

Annwyl Glerc CYSAG

Ar ran Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC, hoffwn rannu ein gwerthfawrogiad o GYSAGau a CYS yng Nghymru am yr holl ymrwymiad a'r gwaith caled a wnaed gennych i gynhyrchu eich meysydd llafur cytunedig newydd ar gyfer CGM. Bu'n dipyn o siwrne i ni i gyd, gyda heriau o ran amser a phroses, felly bu llwyddo i fod yn barod erbyn dechrau cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn dipyn o gamp. Gobeithiwn eich bod yn teimlo i CCYSAGauC eich cefnogi yn ystod y cyfnod hwn.

Gan edrych tua'r dyfodol, fel rhan o'n cefnogaeth barhaus, mae CCYSAGauC wedi ymateb yn gadarnhaol i gais gan Lywodraeth Cymru i wneud ymarfer pen desg byr, sy'n golygu edrych ar destun meysydd llafur cytunedig pob awdurdod lleol er mwyn cael teimlad o pa mor driw y maent i weledigaeth ac ethos CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. O fewn cyd-destun ehangach a phwysig penderfyniad lleol, gobeithiwn y bydd hwn yn ymarfer cynhaliol ym mlwyddyn gyntaf y cwricwlwm newydd ac y bydd yn gyfle i rannu ymarfer ar draws Cymru.

Mae Tîm Prosiect CCYSAGauC yn cynnwys: Tania ap Sion, Libby Jones, Kathy Riddick, Rachel Samuel, Elizabeth Thomas, a Paula Webber. Bu pob un o aelodau'r tîm â rhan mewn drafftio canllawiau statudol CGM ar Hwb a/neu maen nhw hefyd ynghlwm â dysgu proffesiynol ar lefel genedlaethol i CGM. Daw cyfraniad Elizabeth Thomas â'r budd ychwanegol o gynnwys arbenigedd ar y tîm sy'n gysylltiedig ag ysgolion o gymeriad crefyddol.

Diolch i chi eto am yr holl waith rydych yn ei wneud i CGM ac AG yn eich awdurdodau lleol. Gallwn fod yn falch iawn o gryfder ein CYSAGau yng Nghymru.

Yn gywir,

Your sincerely,

Y Parchg Ddr Tania ap Siôn

Cadeirydd CCYSAGauC

This page is intentionally left blank

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd* /Chair:
The Revd Dr Tania ap Siôn
Gelli Wen, Llanfairpwllgwyngyll, Anglesey,LL61 6EQ
e-bost/e-mail: smc.taniaapsion@gmail.com

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Ms Alice Parry
39 Galleon Way, Cardiff Bay, CF10 4JA
e-bost/e-mail: ParryA274@hwbcymru.net
*ffôn/tel*: 07779 168084

13 Chwefror 2023

Annwyl Glerc CYSAG,

Gan ddilyn ein proses flynyddol arferol, rwyf yn ysgrifennu i wahodd CYSAGau i gynnig enwebiadau am aelodau newydd i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe bai'ch CYSAG yn trafod unrhyw enwebiadau y dymunant eu cynnig. Sylwer, os yw'ch CYSAG yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith yn barod, ac eithrio'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd, yn ôl Cyfansoddiad CCYSAGauC, ni fyddwch yn gallu enwebu rhywun o'ch CYSAG chi y tro hwn.

Fe sylwch yn y rhestr aelodau sydd ynghlwm mae 2 lle ar gael. Mae'n hanfodol fod CCYSAGauC yn cadw aelodaeth lawn ac amrywiol er mwyn parhau â'i waith da. Gofynnwn i chi felly rhoi ystyriaeth ystyrlon cais hwn a gobeithio y derbyniwn rai enwebiadau.

Ynghlwm y mae ffurflen y dylid ei llenwi a'i dychwelyd i mi ar y cyfeiriad e-bost /post uchod erbyn **dydd Gwener 31 Mawrth 2023**. Byddaf yn anfon y rhestr enwebiadau i chi cyn **dydd Gwener 28 Ebrill 2023**, fel y gall eich CYSAG eu trafod yng nghyfarfod tymor yr haf mewn pryd ar gyfer y bleidlais yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym mis Mehefin.

Sylwer y bydd disgwyl i'r enwebeion fod ar gael i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor gwaith yn rheolaidd os ydynt yn llwyddiannus yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin.

Hoffem ddiolch i chi a'ch aelodau am eich cymorth yn y mater hwn.

Yn gywir,

*A Parry*

Alice Parry

**Ysgrifennydd i Gymdeithas CYSAGau Cymru**

**Aelodaeth Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC / Membership of WASACRE Executive Committee 2022/2023**

Cadeirydd / Chair – Rev. Dr Tania ap Sion (Wrecsam / Wrexham)

Is-Gadeirydd / Vice Chair – Rev. Edward J. Evans (Pen-y-bont / Bridgend)

Ysgrifennydd / Secretary – Alice Parry (Pen-y-bont / Bridgend)

Ysgrifennydd Cynorthwyol / Assistant Secretary - Libby Jones (Wrecsam / Wrexham)

Trysorydd / Treasurer – John Mitson (Powys)

Cyn-Gadeirydd diweddaraf / Immediate Past Chair – Rachel Samuel (CNP / Neath Port Talbot)

Cyn-Ysgrifennydd diweddaraf / Immediate Past Secretary – Paula Webber

Cynrychiolydd o PYCAG / Representative of NAPfRE – Paula Webber

**Aelodau cyffredinol / Executive members:**

Jennie Downes - Sir Ddinbych / Denbighshire (2020-2023)

John Meredith - Powys / Powys (2020-2023)

Kathy Riddick - Blaenau Gwent /Blaenau Gwent (2021-2024)

Vicky Barlow - Sir y Fflint / Flintshire (2022- 2025)

Louise Brown - Sir Fynwy / Monmouthshire (2022-2025)

Mathew Maidment - Rhondda Cynon Taff / Rhondda Cynon Taf (2022-2025)

* Cworwm yw 5 aelod / Quorum is 5 members

** Bydd pleidlais mwyafrif yn cyfrif / Majority vote will count

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC/**
***Nominations to WASACRE Executive Committee***

**2023**

**ENW CYSAG / SACRE NAME:**

| **Enwebiad / Nomination** | **Enw / Name** | **Cyfeiriad e-bost/ E-mail address** |
|---|---|---|
| Pwyllgor Gwaith/ Executive Committee | | |
| Pwyllgor Gwaith/ Executive Committee | | |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 16 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank